Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

24 Heol y Gadeirlan / Cathedral Road
Caerdydd / Cardiff CF11 9LJ
Ffôn / Tel: 029 20 320500
Ebost / Email: info@wao.gov.uk
www.wao.gov.uk

Mr Darren Millar AC
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1NA

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 1 Hydref 2015 |
| Ein cyf: | HVT/2393/caf |
| Tudalen: | 1 o 4 |

Annwyl Darren

**YMATEB LLYWODRAETH CYMRU – YMATEB I DDIWYGIO LLES YNG NGHYMRU**

Yn llythyr y Dirprwy Glerc dyddiedig 7 Medi gofynnwyd am fy nghyngor ar ymateb Llywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor ar *Ymateb i Ddiwygio Lles yng Nghymru* a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2015.

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi ei bod yn derbyn yn llawn chwech yn unig o 17 o argymhellion y Pwyllgor, yn derbyn un o'r argymhellion mewn egwyddor ac yn derbyn y 10 o argymhellion eraill yn rhannol. Yn gyffredinol, rwyf o'r farn nad yw Llywodraeth Cymru wedi ymateb yn ddigon llawn i argymhellion y Pwyllgor ac rwyf wedi nodi isod rai meysydd lle gallech ddymuno ceisio mwy o wybodaeth neu eglurhad.

**Argymhelliad 1:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol, ar y sail ei bod yn gweld lliniaru effaith diwygio lles fel un elfen o'i strategaeth ar drechu tlodi, ac y bu'n darparu goruchwyliaeth strategol drwy'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol ar Ddiwygio Lles. Serch hynny, roeddwn yn tybio bod y Pwyllgor yn dal i ddymuno gweld dogfen strategaeth annibynnol yn cael ei chyhoeddi ac, yn hynny o beth, mae Llywodraeth Cymru, mewn gwirionedd, wedi gwrthod yr argymhelliad. Efallai y byddai'r Pwyllgor yn dymuno ystyried a fyddai, o leiaf, yn croesawu ymrwymiad mwy penodol ar y camau y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn ymarferol i liniaru effaith diwygio lles drwy, er enghraifft, ddatblygu cynllun gweithredu diwygio lles penodol i ategu'r strategaeth trechu tlodi.

**Argymhelliad 2:** Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn yn rhannol, ar y sail bod Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn anymarferol cyhoeddi'r holl wybodaeth a ystyriwyd gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen Gweinidogol. Roedd gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn adolygu'r opsiwn parthed y dadansoddiad cost a budd i liniaru effaith lawn dileu'r

cymhorthdal ystafell sbâr drwy daliadau tai yn ôl disgresiwn, fel y dewisodd Llywodraeth yr Alban ei wneud. Nid yw'r ymateb yn darparu digon o fanylion ynghylch a fydd y wybodaeth benodol hon yn cael ei hychwanegu at y tudalennau diwygio lles ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae Llywodraeth Cymru wedi datgan yn syml y bydd yn darparu crynodeb o'i hymateb i ddiwygio lles.

**Argymhelliad 3:** Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn yn rhannol eto, gyda Llywodraeth Cymru yn cyfeirio at amrywiaeth o ddulliau presennol ar gyfer casglu ac ystyried data, gan dynnu sylw at rhai camau gweithredu newydd hefyd. Hyd y cofiaf roedd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor ar faterion perfformiad a data yn eithaf cymhellol a phwysleisiwyd nad yw effaith diwygio lles yn cael ei deall yn glir ar hyn o bryd ac mae hyn yn atal rhagolygon i nodi ffyrdd gwell o wneud pethau. Efallai y bydd y Pwyllgor am drafod cyfleoedd i Lywodraeth Cymru wella amrywiaeth ac ansawdd y dystiolaeth bresennol drwy, er enghraifft, gynnwys nifer bach o geisiadau am ddata allweddol fel y nodwyd yn adroddiad y Pwyllgor (tudalen 13 i 15) fel rhan o'r ymchwil a gynigir mewn perthynas ag **Argymhelliad 8.**

**Argymhelliad 4:** Cafodd y Pwyllgor dystiolaeth bod rhaglenni datblygu ar hyn o bryd yn canolbwyntio gormod ar lety tair ystafell wely ac nid ar unedau llai, gan awgrymu bod gwahaniaeth rhwng yr hyn mae landlordiaid am ei adeiladu - tai i deuluoedd - a maint yr eiddo sydd ei angen ar y rhai a chanddynt angen o ran tai fel y pennir gan y meini prawf maint tai rhent cymdeithasol. Mae hyn yn ei dro yn ei gwneud yn anodd modelu'r galw ar gyfer y dyfodol. Fy atgof o'r pryder penodol hwn a amlygwyd mewn rhai o'r sesiynau tystiolaeth oedd bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried y materion hyn yn llawn wrth gymeradwyo cynlluniau adeiladu newydd.

**Argymhelliad 5:** Mae'r argymhelliad hwn yn cael ei dderbyn yn rhannol yn unig, ac nid wyf yn teimlo bod yr ymateb yn ddigonol. Rwy'n cydnabod efallai nad yw'r canllawiau gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ar Daliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gofnodi gwybodaeth am amgylchiadau penodol tenantiaid ag anableddau mewn cartrefi a addaswyd. Fodd bynnag, byddwn wedi disgwyl ymateb mwy trylwyr gan Lywodraeth Cymru a oedd yn ystyried y mater penodol hwn mewn perthynas â dyletswyddau awdurdodau lleol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a'r rôl arweinyddiaeth ehangach a amlygwyd gan y Pwyllgor o dan **Argymhelliad 1**. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ceisio sicrwydd pellach bod camau ar waith i fynd i'r afael â'r dyletswyddau cydraddoldeb pwysig hyn yn llawn. Er enghraifft, drwy ofyn i Lywodraeth Cymru adolygu asesiadau effaith ar gydraddoldeb awdurdodau lleol ar gyfer gweinyddu Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn.

**Argymhelliad 11:** Mae Llywodraeth Cymru wedi derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol ac mae wedi darparu manylion am y broses ar gyfer diweddaru'r Cod Canllawiau ar gyfer awdurdodau lleol ar Ddyrannu Llety a Digartrefedd. Fy nealltwriaeth i oedd bod y mater a

amlygwyd gan y Pwyllgor yn ymwneud yn bennaf ag amgylchiadau ariannol unigolion gymaint â'r categorïau angen blaenoriaethol a nodir yn y cod. Awgrymodd y dystiolaeth a gafwyd gan y Pwyllgor nad yw rhai pobl o bosibl yn cael cymorth oherwydd eu sefyllfa ariannol yn enwedig lle mae ganddynt ôl-ddyledion sy'n ddyledus neu ddyledion morgais. Mae effaith hyn wedi arwain at sefyllfa lle mae rhai teuluoedd sy'n ceisio cymorth gan awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig yn cael eu heithrio o gofrestrau tai ac felly maent yn cael eu hystyried yn “rhy dlawd ar gyfer tai cymdeithasol.”

Er ei bod yn gadarnhaol nodi bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu arolygu awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig o dan **Argymhelliad 8**, a fydd yn archwilio’r asesiad o amgylchiadau ariannol pobl, byddai'n fanteisiol ymestyn hyn i gwmpasu gwaith asiantaethau cyngor sy'n aml mewn sefyllfa well i ddarparu dealltwriaeth annibynnol o'r materion hyn. Fel y mae, mae'r ymateb i **Argymhelliad 11** yn gofyn i'r rhai sydd wedi gwneud y penderfyniad i beidio â chynorthwyo teulu neu unigolyn – awdurdodau lleol a landlordiaid cymdeithasol cofrestredig – i adolygu eu harferion eu hunain sydd, at ddibenion tryloywder a chydbwysedd, yn codi rhai pryderon. Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno awgrymu bod yr ymarfer hwn yn cael ei ehangu i gynnwys sefydliadau cynghori i ddarparu rhywfaint o annibyniaeth ar y broses hon.

**Argymhelliad 13:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn yn rhannol. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn awgrymu bod cyngor a ddarperir gan landlordiaid yn canolbwyntio ar ymdrin â materion “landlordiaid” yn gyntaf oll ac nid hyn o reidrwydd yw'r cam gweithredu cywir na'r opsiwn gorau i'r tenant. I'r gwrthwyneb, mae cyngor annibynnol yn edrych ar yr hyn sy'n gywir i'r unigolyn ac mae'r materion landlordiaid yn un o nifer o wahanol feysydd a gaiff eu hystyried wrth flaenoriaethu a chytuno ar ffordd ymlaen. Fy atgof yw bod y Pwyllgor drwy ei argymhelliad yn ceisio sicrhau cyngor i ystyried anghenion ehangach tenantiaid nid dim ond blaenoriaethau eu landlord. O ystyried nad yw'r ymateb yn mynd i'r afael â'r pwynt hwn yn ddigonol, efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno cael rhagor o fanylion am sut y bydd Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod anghenion yr unigolyn yn hytrach na'r landlord yn cael eu blaenoriaethu'n gyfartal wrth gynnal ei hadolygiad a gynlluniwyd.

**Argymhelliad 14:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yr argymhelliad hwn. Er bod yr ymateb yn amlygu rhywfaint o waith cadarnhaol Cyngor Caerdydd, nid yw'n glir a yw'r protocolau newydd ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn cwmpasu pob un o'r 22 o awdurdodau lleol. Ar y sail hon, gallai'r Pwyllgor ofyn i Lywodraeth Cymru egluro bod y ddau gyngor nad oedd yn rhan o'r cytundeb ar adeg yr ymchwiliad – Caerdydd a Chastell-nedd Port Talbot – bellach yn rhan o'r trefniadau newydd i sicrhau'r bod y dull cyson a ddymunir yn cael ei gyflawni.

Yn ogystal, er bod yr ymateb hefyd yn nodi bod y fframwaith presennol o brotocolau cyngor a chanllawiau yn darparu *dull cyson o ran budd-daliadau anabledd* mewn awdurdodau lleol, ni chredaf fod hyn yn gwbl gywir pan fyddwch yn ystyried yr ymateb i **Argymhelliad 5** a nodir

uchod. Nid yw'r manylion a ddarperir mewn ymateb i **Argymhelliad 14** yn mynd i'r afael yn ddigonol â'r materion a wynebir gan bobl anabl a amlygwyd mewn tystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor ac yn adroddiad y Pwyllgor, a chredaf ei bod yn rhesymol disgwyl ymateb mwy trylwyr a chydgysylltiedig gan Lywodraeth Cymru ar y pwynt hwn a'r pwyntiau a wnaed o dan **Argymhelliad 5.** Sef, bod cynllun Cymru gyfan ar gyfer Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn yn cael ei fabwysiadu gan bob cyngor ac yr eir i'r afael yn gliriach â materion yn ymwneud â phobl anabl.

**Argymhelliad 17:** Mae Llywodraeth Cymru yn derbyn yn llawn yr argymhelliad hwn i roi barn gynnar ar effaith newidiadau pellach yn y system les, yn enwedig i bobl 18-21 oed, ac ymgynghori yn gynnar ac yn eang ar ei hymateb arfaethedig. Fodd bynnag, efallai nad yw'r ymateb yn ddigon manwl i ddarparu'r sicrwydd y mae'r Pwyllgor yn ei geisio.

Yn Adroddiad y Pwyllgor *Ymateb i Ddiwygio Lles yng Nghymru*, nododd yr aelodau ym Mharagraff 121 "*y gall Llywodraeth Cymru wneud mwy i ddangos arweiniad a chydgysylltu'r ymateb i ddiwygio lles yng Nghymru*". Er bod yr ymateb gan Lywodraeth Cymru yn gywir ddigon yn canolbwyntio ar ddeall effaith bosibl diwygiadau lles pellach ac yn nodi bod gwaith ar y gweill gydag awdurdodau lleol, Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ac asiantaethau cyngor, credaf y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu arweinyddiaeth gliriach drwy ddatblygu cynllun gweithredu diwygio lles penodol ac mae hyn wedi'i wrthod o ran **Argymhelliad 1**. Byddai hyn yn darparu ffocws clir ar y camau gweithredu y mae'n bwriadu eu blaenoriaethu i fynd i'r afael ag anghenion y rhai 18-21 oed. Fel y mae, ymddengys fod Llywodraeth Cymru yn gwneud gwaith pellach i ymchwilio i'r effaith bosibl ond nid yw am ffurfioli ei hymateb i'r heriau hyn yn strategaeth neu gynllun gweithredu a fyddai'n galluogi atebolrwydd cliriach a chraffu ar berfformiad yn fwy effeithiol.

Hyderaf fod y cyngor hwn yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor.

**HUW VAUGHAN THOMAS**
**ARCHWILYDD CYFFREDINOL CYMRU**